Adroddiad ar yr ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n deillio o'r Bil Diwygio Lles a Gwaith ('y Bil')

Safbwynt y Pwyllgor

1. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn fodlon ar y Memorandwm. Gwelir isod ragor o wybodaeth am gefndir y Bil a'r darpariaethau y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer;

Y Bil

2. Cyflwynwyd y Bil gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Gorffennaf 2015, a chyflwynwyd adroddiad arno ar 27 Hydref 2015. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 28 Hydref 2015 ac ailddarlleniad ar 17 Tachwedd. Disgwylir iddo ddechrau ei gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Rhagfyr.

3. Bwriad prif amcanion polisi cyffredinol Llywodraeth y DU o ran y Bil yn ei gyfanrwydd yw i gefnogi ei hymrwymiadau i gynyddu cyflogaeth, i arafu twf y gyllideb les er mwyn cynorthwyo i sicrhau y cyflawnir system lles fwy cynaliadwy, i gefnogi'r polisi o wobrwyo gwaith caled ac ar yr un pryd i wella tegwch ag aelwydydd sy'n gweithio.

4. Y paragraffau perthnasol yn y Nodiadau Esboniadol sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn a darpariaethau cysylltiedig y Bil yw paragraff 17 i baragraff 19 *(Diwygio'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant* ac 20 *(Tynnu dyletswyddau a darpariaethau eraill yn y Ddeddf Tlodi Plant 2010).*

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer:

5. Yn gryno, y cymalau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer yw'r rhai sy'n:

- dileu dyletswydd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol i hyrwyddo symudedd cymdeithasol yng Nghymru, ond yn cadw ei gyfrifoldeb i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at wella symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, ac i osod yr adroddiad gerbron Senedd y DU – **cymal 5 o'r Bil.**

- yn dileu swyddogaeth Gweinidogion Cymru i benodi Comisiynydd o Gymru i'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. Mae hwn yn ymwneud â **Gwelliant Rhif 16,** a gyflwynwyd gan Ian Duncan Smith, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 21 Hydref, ac a restrir yn yr Hysbysiadau ynghylch Gwelliannau a roddwyd hyd at, ac yn cynnwys, dydd Mercher 21 Hydref 2016.

Cymal 5 o'r Bil – Comisiynydd Symudedd Cymdeithasol

6. Mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant presennol yn monitro'r cynnydd a wneir gan Lywodraeth y DU ac eraill tuag at wella symudedd cymdeithasol a lleihau tlodi plant yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Comisiwn yn gorff cynghori cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd o dan Ddeddf Tlodi Plant 2010 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Lles 2012) i fonitro cynnydd Llywodraeth y DU ac eraill o ran symudedd cymdeithasol a thlodi plant.

7. Mae Cymal 5 yn mewnosod adran A1C yn Neddf Tlodi Plant 2010 ac yn nodi sut y caiff y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant ei ddiwygio, i newid ei swyddogaethau a'i ailenwi'n Gomisiwn Symudedd Cymdeithasol. O dan y Bil, bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i hyrwyddo symudedd cymdeithasol yn Lloegr yn unig, ac ar gais, i roi cyngor i Weinidog y Goron ar sut i wella symudedd cymdeithasol yn Lloegr**.** Ni fydd y Comisiwn bellach yn canolbwyntio ar dlodi plant.

8. Dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 13 Gorffennaf 2015:

Er mai targed i Lywodraeth y DU yw'r targed yn y Ddeddf Tlodi Plant, pwrpas y Datganiad hwn yw cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i barhau â'i huchelgais hi i ddileu tlodi plant erbyn 2020."

9. O dan Gymal 5 o'r Bil, bydd yn parhau'n ofynnol i'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi ei farn ar y cynnydd a wnaed tuag at wella symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, ac i osod yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd y DU.

10. Fel y dywed y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn Atodiad B o'i llythyr at y Pwyllgor Menter a Busnes ar 17 Tachwedd 2015:

"While I remain deeply concerned at the UK Government's shift in focus away from child poverty, I recognise the value of the Commission publishing its annual state of the Nation report on social mobility." a

"Reports have included observations and recommendations for the different countries of the UK, which is something we have found useful in the past. The report also draws comparisons between the countries of the UK and provides us with examples of good practice, enabling us to learn from one another."

Aelodau'r Comisiwn ar hyn o bryd

11. Mae gan y Comisiwn saith Comisiynydd, gan gynnwys aelod o Gymru ac o'r Alban. Yr aelod o Gymru ar hyn o bryd yw Catriona Williams, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru sy'n penodi i'r swydd.

Gwelliant rhif 16, a gyflwynwyd gan Ian Duncan Smith, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 21 Hydref 2015

12. Mae'r gwelliant hwn i Atodlen 1 (y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant) i Ddeddf Tlodi Plant 2010 yn dileu rôl Gweinidogion yr Alban a Chymru o ran bod y ddwy wlad yn penodi aelod o'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol diwygiedig. Dywed y Gweinidog yn Atodiad B o'i llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 17 Tachwedd 2015:

"The decision by the UK Government to move away from a focus on child poverty does not fit with the priorities of the Welsh Government. I therefore, requested that the term in office of the Commissioner should come to an end when the Welfare and Reform and Work Act is passed and changes to the Commission take effect."

a

"My decision to withdraw the Commissioner for Wales was not taken lightly. The Commissioner was well qualified to act as a spokesperson for child poverty and to present the work the Welsh Government is taking forward to address this. She will remain engaged with our Tackling Poverty External Advisory Group through the policy sessions they hold on an ongoing basis. Her views and opinions, as well as her extensive knowledge of child poverty, are very much valued."

Hefyd dywedodd y Gweinidog:

The Welsh Government is not alone in taking this action. Reducing child poverty is also a central priority of the Scottish Government and the Scottish Minister, Alex Neil, felt the child poverty element of the Commission's work was key to its remit. As a result of the changes to the Commission, the Scottish Minister has also taken the decision to withdraw their Commissioner for Scotland.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

13. Mae'r darpariaethau - Cymal 5, a gwelliant Rhif 16, yn ymwneud â mater o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Bwnc 15 *'Lles Cymdeithasol'* o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn benodol *'Lles cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol'* ac *'Amddiffyn a lles plant'*.

14. Felly mae cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad yn ofynnol, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, ac yn unol â'r fersiwn ddiwygiedig o'r Canllaw ar Ddatganoli Rhif 9 (a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU).

15. Mae darpariaethau'r Bil hwn a'r Gwelliant penodol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, fodd bynnag, mae'r darpariaethau'n ymwneud â chynigion Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn gyffredinol.

Casgliad

16. Ystyriodd y Pwyllgor Menter a Busnes fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gyfrwng deddfwriaethol rhesymol er mwyn galluogi darpariaethau penodol y Bil i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Nododd Aelodau'r Pwyllgor, yn unol â gofynion Mesur Plant a

Theuluoedd (Cymru) 2010, fod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i gyflwyno adroddiad bob tair blynedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ddarparu asesiad o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion a geir yn y Strategaeth Tlodi Plant i gyfrannu at ddileu tlodi plant.

17. Nododd yr Aelodau hefyd y sylwadau a wnaed gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 17 Tachwedd 2015, lle mae'n nodi'r rhesymau pam y gofynnodd am y gwelliannau i'r Bil sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.